# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 18 MEDI 2019 AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau i Blant), M. Jones (Rheolwr Gwasanaethau Ariannol Dros Dro) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 10 GORFFENNAF 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2019 (rhifau cofnod 1 - 11) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

### 4. CABINET - 1 AWST 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Awst 2019 (rhifau cofnod 1-3) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd daethpwyd â'r adroddiad ar Flaenraglen Waith y Cabinet ymlaen ar yr agenda.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Flaenraglen Waith am y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019. Nodwyd fod y rhaglen yn nodi'r adroddiadau allweddol y mae'r Cabinet yn disgwyl eu derbyn yn y misoedd i ddod ac sy'n cael eu diweddaru'n wythnosol.

Cyfeiriwyd at yr eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod ar 2 Hydref 2019 a'r adroddiad ar Gyfarwyddyd Ansawdd Aer Hafodyrynys - Proses Gorchymyn Prynu Gorfodol, a chadarnhawyd bod Swyddogion yn dal i aros am wybodaeth bellach oddi wrth Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ac felly gwnaed cais iddo gael ei dynnu o'r rhaglen ar gyfer y dyddiad hwn, a’i symud i ddyddiad i'w gadarnhau ar ôl i'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ddod i ben.

Cynigwyd ac eiliwyd, yn amodol ar y diwygiad uchod, cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet fel yr atodir yn Atodiad 1 a chytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet yn amodol ar symudiad adroddiad y Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Hafodyrynys - Proses Gorchymyn Prynu Gorfodol o 2 Hydref 2019 i ddyddiad i'w gadarnhau.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet am ystod o gynigion ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nododd yr adroddiad oddeutu £734 mil o arian wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol a glustnodwyd at ddibenion penodol ym mlynyddoedd cynharach nad oedd eu hangen at eu dibenion gwreiddiol mwyach o ganlyniad i fuddsoddiad diweddar yng nghyllideb refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

O ganlyniad, cynigiwyd ail-fuddsoddi'r arian a glustnodwyd i alluogi ystod o fuddsoddiadau untro a threfniadau â therfyn amser i fynd i'r afael â rhai pwysau llwyth gwaith uniongyrchol, lleddfu'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol neu i wella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Hefyd, cynigiodd yr adroddiad y dylid defnyddio £281 mil arall, a glustnodwyd ar gyfer "cynlluniau buddsoddi i arbed gwasanaethau cymdeithasol" i dreialu cynllun a fydd yn darparu cymorth ychwanegol i deuluoedd â rhieni sydd ag anableddau dysgu gyda'r disgwyl o leihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn derbyn gofal. Byddai'r cronfeydd hefyd yn cael eu defnyddio i brynu offer arbenigol a fydd yn galluogi i un gofalydd ymgymryd â rhai galwadau gofal cartref yn hytrach na gofyn am ddau ofalydd, sy'n lleihau'r galw ar y farchnad gofal cartref a lleihau costau yn y pen draw

Yn ychwanegol, cadarnhaodd yr adroddiad nad oedd angen trosglwyddo £242 mil o gronfeydd wrth gefn cyffredinol Gwasanaethau Cymdeithasol, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 30 Mai 2018, i greu cronfa wrth gefn clustnodedig i gyllido'r goblygiadau 2018/2019 o gynnydd mewn ffioedd gofal maeth. Fodd bynnag, cynigiwyd y dylid defnyddio'r £242 mil hwn i greu cronfa wrth gefn clustnodedig ychwanegol ar gyfer gwaith cyfalaf i'w wneud gan sefydliadau gofal uniongyrchol Gwasanaethau i Oedolion ac i wella cyfleusterau ystafell ymolchi a galluoedd diwifr.

Nodwyd fod yr adroddiad yn ystyried cronfeydd wrth gefn y Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig ac na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar falans cronfa gyffredinol y Cyngor.

Talodd y Cabinet deyrnged i'r rheolaeth ariannol gadarn a wnaed gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cyhoeddus a Rheolwr Dros Dro'r Gwasanaethau Ariannol a arweiniodd at yr arian dros ben y gellid bellach ei ddefnyddio i leddfu pwysau'r maes gwasanaeth.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â natur yr offer arbenigol a fyddai'n cael ei brynu. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r gwasanaethau Therapi Galwedigaethol yn defnyddio'r offer i gynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth gyda lefelau dibyniaeth uwch, yn bennaf y rhai sydd angen galwadau â dwywaith y nifer o swyddogion mwyn eu symud yn ddiogel. Byddai'r offer cywir yn galluogi i ofalydd unigol symud defnyddiwr y gwasanaeth yn ddiogel, gan ryddhau gofalydd arall i weithio mewn ardal arall, gan sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac felly yn lleihau costau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo ailgyfeiriad arfaethedig o gronfeydd wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol a nodir yn yr adroddiad ac a grynhoir yn Atodiad 1, yn amodol ar y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog.

## 7. LLYWODRAETH CYMRU – DISGWYLIADAU O RAN LLEIHAU NIFER Y PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn cynghori'r Cabinet am ddisgwyliad Llywodraeth Cymru bod pob Cyngor yng Nghymru yn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn modd ddiogel ac yn gofyn am ei gefnogaeth ynglŷn â'r gweithrediadau arfaethedig sydd i'w ymgymryd yng Nghaerffili mewn ymateb i hyn.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod Prif Weinidog Cymru wedi gwneud addewid maniffesto i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru erbyn 2022 ac ym mis Chwefror 2019, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddent yn ymweld â phob Awdurdod Lleol i drafod cynlluniau lleol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Digwyddodd eu hymweliad i Gaerffili ar ddiwedd mis Mawrth 2019 a gwahoddwyd i'r Cyngor gyflwyno cynllun lleihau i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Ebrill 2019. Wedi hyn, diwygiodd Llywodraeth Cymru dempled yr adroddiad ac mae'r fersiwn derfynol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf wedi'i hatodi yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

Mewn cydnabyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Y Gronfa Gofal Integredig sy'n canolbwyntio'n benodol ar leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru am y mater hwn a chadarnhaodd yr Aelod Cabinet am Wasanaethau Cymdeithasol fod yna bwyslais bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ond dim ond pan oedd yn ddiogel i'r plentyn wneud hynny.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r nifer o leoliadau y tu allan i'r ardal a chadarnhawyd y bydd y lleoliadau hyn dim ond yn cael eu defnyddio os mai dyma'r dewis gorau ar gyfer y plentyn unigol.

Mynegwyd pryder byddai'r cyfarwyddyd hwn oddi wrth Llywodraeth Cymru yn troi'n tabl cynghrair arall a derbyniwyd bod hyn yn bosibilrwydd realistig, fodd bynnag, sicrhawyd y

Cabinet y byddai diogelwch y plant o'r pwys uchaf ac ni fyddai unrhyw darged yn cael ei gyflawni ar draul diogelwch plant.

Amlygwyd paragraff 5.2.1 o adroddiad y Swyddog gan ei fod yn tynnu sylw at y ffaith bod y camau sy'n ofynnol i gydymffurfio â Chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn debygol o arwain at feirniadaeth gan y Farnwriaeth a CAFCASS pe bai’n rhaid i'r awdurdod gyhoeddi achos llys a chydnabyddodd yr Aelodau'‘r risgiau cysylltiedig.

Cyfeiriwyd y Cabinet at argymhelliad 3.3 o adroddiad y Swyddog a ofynnodd am ystyriaeth o ran cynnwys Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn Ddiogel yn Amcan Llesiant 6 o'r Cynllun Corfforaethol, o gofio bod y cynllun newydd wedi'i ddiweddaru ac yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor gan fod cais wedi bod i newid geiriad yr argymhelliad hwn. Bydd yr argymhelliad yn darllen 'yn ei adolygiad nesaf bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddiwygio i gynnwys ’Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal y Ddiogel' o fewn Amcan Llesiant 6: Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella’u llesiant'.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar y diwygiad uchod, bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) nodi cynnwys yr adroddiad a Thempled Llywodraeth Cymru ac wedi’i atodi yn Atodiad 1;

(ii) cefnogi'r datblygiadau cyhoeddus y manylir yn yr adroddiad sydd â'r nod o sicrhau gostyngiad cyffredinol yn y nifer y plant sy'n derbyn gofal erbyn diwedd mis Mawrth 2022;

(iii) diwygio'r Cynllun Corfforaethol yn ystod yr adolygiad nesaf i gynnwys ’Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn Ddiogel' o fewn Amcan Llesiant 6: Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

## 7. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O DREFNIADAU DIOGELU CORFFORAETHOL Y CYNGOR

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn cynghori’r Cabinet am Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o Drefniadau Diogelu Corfforaethol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ym mis Mai 2019 ac adrodd ar weithrediad cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad.

Cynhaliodd SAC adolygiad dilynol o Drefniadau Diogelu Corfforaethol i Blant yng Nghaerffili ym mis Mai 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad dilynol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'w gymeradwyo ym mis Mehefin 2019 a chyflwynodd Rheolwr Archwilio Perfformiad SAC canfyddiadau'r adroddiad i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Mehefin 2019.

Cyfeiriwyd y Cabinet at adroddiad yr Adolygiad fel yr atodwyd yn Atodiad A, Ymateb y Rheolwyr yn Atodiad B a Chynllun Gweithredu Bwrdd Diogelu Corfforaethol Caerffili yn Atodiad C. Mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu, cadarnhawyd y byddai'n cael ei fonitro'n rheolaidd gyda diweddariadau pellach yn cael eu darparu i Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Un o'r adrannau a gafodd ei hamlygu yn yr Adolygiad oedd yr angen i ddatblygu system lwybro ar gyfer hyfforddi a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er mwyn casglu data a’i thynnu i lawr yn fanwl gywir ac fe hysbyswyd i Aelodau bod y system ITrent presennol yn methu'r ymarferoldeb sydd ei angen i gynhyrchu adroddiadau o'r natur hon. Cadarnhaodd y Swyddog  fod yr angen am system arbenigol wedi dod i’r amlwg er mwyn casglu’r data sydd

ei angen, a hysbyswyd eu bod nhw'n gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Digidol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau'r ffordd orau o ddod â hyn at ei gilydd ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar yr opsiynau gorau i'w  cymryd ymlaen.

Pwysleisiwyd mai adolygiad o reolaeth gorfforaethol y trefniadau diogelu oedd hwn ac nad oedd yn ystyried arfer a gweithdrefn diogelu plant.

Ar ôl ystyried yr argymhelliad yn 3.1, cytunwyd fod angen cefnogaeth y Cabinet o Adolygiad y Cynllun Gweithredu yn hytrach na'i nodi, felly cytunwyd aralleirio'r argymhelliad i ddefnyddio'r gair 'cymeradwyo' yn lle 'nodi'.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar y diwygiad uchod, bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys adroddiad Adolygiad y Swyddfa Archwilio Cymru a'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion a manylir yng Nghynllun Gweithredu'r Cyngor, yn amodol ar ddiwygiad o eiriad argymhelliad 3.1 yn Adroddiad y Swyddog i ddefnyddio'r gair 'cymeradwyo' yn lle 'nodi'

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2019.

______________________

CADEIRYDD